Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sgyrsiau am yr Hinsawdd 2024

## Adroddiad Cryno

Hydref 2025

eunomia

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53083, ISBN digidol 978-1-80633-470-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Un o grantiau Llywodraeth Cymru yw **Cronfa Gweithgarwch Cymunedol Sgyrsiau am yr Hinsawdd (Y Gronfa)**. Agorir y Gronfa'n flynyddol ar gyfer ceisiadau o gwmpas Wythnos Hinsawdd Cymru. Ei diben yw cefnogi'r cyhoedd yn gyffredinol i gynnal digwyddiadau cymunedol i archwilio atebion ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Gall sefydliadau cymunedol ymgeisio am gyllid i gynnal digwyddiadau lleol sy'n gysylltiedig â rhaglen flynyddol Wythnos Hinsawdd Cymru. Nod y Gronfa yw casglu tystiolaeth a gwybodaeth a ddefnyddir wedyn i arwain penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar newid yn yr hinsawdd. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus roi sylw i gyfres o gwestiynau gosod gyda chyfranogwyr a rhannu'r wybodaeth a geir trwy adroddiad wedi'r digwyddiad. Yn 2024, y thema oedd "**Addasu i'n Hinsawdd sy'n Newid**."[1] Cefnogodd y Gronfa 69 o ddigwyddiadau, ac o'r rhain cyflwynwyd 62 o adroddiadau a ddadansoddwyd wedyn gan Eunomia Research and Consulting.

Mae'r adroddiad byr hwn yn crynhoi canfyddiadau cyfranogwyr o risgiau'n ymwneud â newid hinsawdd, pa mor barod ydym amdanynt, strategaethau addasu a chyfleoedd, ar sail data ansoddol a meintiol a gasglwyd o'r digwyddiadau hyn fel yr adroddwyd gan y trefnwyr. Mae'r Gronfa'n canolbwyntio ar hyrwyddo trafodaeth feddylgar ymysg y cyhoedd yn hytrach nag ar gyflawni ymchwil cynhwysfawr[2], gyda dadansoddiad llawn o'r trafodaethau i'w gael yma. Diben yr adroddiad hwn yw crynhoi canfyddiadau o ddigwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd 2024. Bydd y dystiolaeth a gynhwysir o fewn yr adroddiad hwn yn cael ei defnyddio i ddyfnhau dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o farn pobl ar y risgiau'n ymwneud â newid hinsawdd, gan gynnwys a yw aelodau o'r cyhoedd yn credu bod ganddyn nhw'r wybodaeth a'r adnoddau i'w hamddiffyn eu hunain, eu cymunedau a'u teuluoedd rhag y peryglon hyn, ac ystyried eu syniadau ynghylch cefnogaeth i fentrau cymunedol. Bydd y canfyddiadau o'r adroddiad hwn yn cael eu defnyddio hefyd i arwain y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu allweddol a nodir yn Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024.


**Methodoleg:** Bu Eunomia yn dadansoddi 62 o adroddiadau o ddigwyddiadau'r Gronfa, a oedd yn ymwneud â 3,787 o gyfranogwyr, gan fynd ati trwy ddefnyddio dulliau cymysg. Roedd y data meintiol yn deillio o holiadur cyn y digwyddiadau[3]; fodd bynnag, oherwydd anghysondebau rhwng yr adroddiadau a'i gilydd, mae rhai cwestiynau'n dibynnu ar nifer llai o adroddiadau a chyfranogwyr. Mae'r ffeithluniau isod yn dangos y nifer o adroddiadau a ddarparodd ddata y gellid ei ddefnyddio ar gyfer pob cwestiwn. Cafodd data ansoddol ei ddadansoddi'n thematig, gan edrych ar y prif naratifau a safbwyntiau a rannwyd yn y trafodaethau, yn ogystal â dyfnder eu hystyr a'u cysylltiadau â'i gilydd, yn hytrach na dim ond cyfrif ymatebion.

[1] Mae addasu i'r hinsawdd yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio camau a gymerir i fynd i'r afael â risgiau newid yn yr hinsawdd a pharatoi ar gyfer y newidau o'n blaenau, Ffynhonnell: Pecyn Trefnwyr y Gronfa.
[2] Mae'r Gronfa'n dilyn yr argymhellion gweithredu fel y'u nodir yn yr Adolygiad o ddulliau ymgynghori â'r cyhoedd ar ddatblygu polisi hinsawdd | LLYW.CYMRU
[3] Gweler Pecyn Trefnwyr y Gronfa, Atodiad D yn y prif adroddiad.


## Digwyddiadau 2025 y Gronfa:

Disgrifiad: Mae Ffigur 1 yn cyflwyno map yn dangos dosbarthiad digwyddiadau'r Gronfa ledled Cymru yn ôl lleoliad. Cynhaliwyd y mwyafrif o ddigwyddiadau yn y De-ddwyrain a'r De-orllewin, gyda llai yn rhanbarthau'r Gogledd a'r Canolbarth. Roedd dau ddigwyddiad penodol ar-lein, ac roedd chwe digwyddiad na chafodd eu hunion leoliad ei grybwyll wrth adrodd (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting).

**Ffigur 1 – Lleoliadau Digwyddiadau**




**Ffigur 2 – Mathau o sefydliadau a gynhaliodd ddigwyddiadau**





Disgrifiad o Ffigur 2: Mae'r tabl a'r siart gron yn dangos y mathau o sefydliadau a gynhaliodd ddigwyddiad Cronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd, a'r nifer a'r ganran gyfatebol o bob math. Sefydliadau dielw a chymunedol sy'n cymryd y gyfran fwyaf o ddigon o'r siart gron. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

**Gweithgareddau Digwyddiadau:** Roedd digwyddiadau fel arfer yn ymwneud â thrafodaethau a hwyluswyd ar bynciau hinsawdd, weithiau gyda sgyrsiau arbenigol neu gyflwyniadau gan siaradwyr mewnol neu allanol. Roedd rhai digwyddiadau'n cynnwys gweithgareddau ar ymdrechion cynaliadwyedd ymarferol, fel plannu a chompostio, ac roedd rhai yn cynnwys gweithdai creadigol fel gwneud collage a chreu posteri a baneri. Roedd rhai trefnwyr yn cynnig cymryd rhan ar-lein ac fe wnaeth rhai gynnal teithiau i archwilio effeithiau hinsawdd.


**Gwybodaeth ac Ymwybyddiaeth**: Ar gychwyn y digwyddiadau, gofynnwyd i gyfranogwyr am raddau eu gwybodaeth a'u pryder ynghylch newid yn yr hinsawdd. Mae Ffigurau 3 a 4 yn cyflwyno'r ymatebion i'r cwestiynau hyn, ar sail 51 o adroddiadau yn y naill, a 52 yn y llall. O fewn y digwyddiadau, adroddwyd bod cyfranogwyr yn arddangos amrywiaeth mewn graddau o ymwybyddiaeth, neu eu bod nhw'u hunain yn awgrymu y gallai gwahanol grwpiau o bobl y tu allan i'r digwyddiadau gael gwahanol lefelau o ymwybyddiaeth o newid yn yr hisnawdd. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr eu bod yn gwybod "cryn dipyn" (42.1%) neu "lawer" (18.2%) ynghylch effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae mwy na dau draean y cyfranogwyr yn "bryderus iawn" (37.7%) ac "eithaf pryderus" (34.9%) am newid yn yr hinsawdd, tra bod dim ond 13.4% yn dweud eu bod "ddim yn bryderus iawn" a 5.5% "ddim yn bryderus o gwbl".

**Ffigur 3 – Lefel Gwybodaeth**




Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar a thabl yw'r ffigur hwn sy'n dangos cyfansoddiad yr ymatebion i'r cwestiwn arolwg cyn y digwyddiad 'faint wyddoch chi am effaith newid yn yr hinsawdd?'. Defnyddiodd y dadansoddiad ddata o 52 o adroddiadau , a oedd yn cynnwys ymatebion gan 2,144 o gyfranogwyr digwyddiadau. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

## Ffigur 4 – Lefel Pryder




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart bar a thabl yw'r ffigur hwn sy'n dangos cyfansoddiad yr ymatebion i'r cwestiwn arolwg cyn y digwyddiad 'pa mor bryderus ydych chi'n bersonol am newid yn yr hinsawdd?'.  Defnyddiodd y dadansoddiad ddata o 51 o adroddiadau, a oedd yn cynnwys ymatebion gan 2,143 o gyfranogwyr. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

**Addasu i newid hinsawdd, pa mor barod a gwydnwch:** Roedd y sgyrsiau'n canolbwyntio'n bennaf ar drafod addasu i'r hinsawdd yng Nghymru, gan adlewyrchu barn a oedd yn cael ei rhannu o newid yn yr hinawdd fel achos tarfu sylweddol, hirdymor ar draws sawl maes o fywyd bob dydd gan effeithiau tywydd garw. Gofynnwyd i gyfranogwyr "Pa bryd fyddwn ni'n cychwyn teimlo effaith gwres eithafol, sychder, stormydd garw a llifogydd neu darfu ar y cyflenwad bwyd?". Mae Ffigur 5, isod, yn cyflwyno siart bar a thabl yn dangos cyfansoddiad ymatebion i gwestiwn cyn digwyddiadau'r arolwg 'pa bryd fydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau newid yn yr hinsawdd?', yn ôl effaith. Defnyddiodd y dadansoddiad ddata o 48 o adroddiadau, a oedd yn cynnwys ymatebion gan 1,925 o gyfranogwyr. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

**Ffigur 5 – Pa bryd fyddwn ni'n cychwyn teimlo effeithiau newid yn yr hinsawdd?**

**Pa bryd fyddwn ni'n cychwyn teimlo effeithiau newid yn yr hinsawdd?**

| | |
|---|---|
| 48 | Adroddiadau |
| 1,925 | Cyfranogwyr |

| Canrannau | Rydym eisoes yn teimlo'r effeithiau | 10 mlynedd nesaf | 25 mlynedd nesaf | 50 mlynedd nesaf | 100 mlynedd nesaf | Byth | Ni roddwyd data |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwres eithafol | 42.0 | 31.5 | 10.8 | 5.3 | 3.0 | 3.4 | 3.9 |
| Sychder/cyfyngiadau ar y cyflenwad dŵr | 32.1 | 34.1 | 13.4 | 7.2 | 3.0 | 4.7 | 5.7 |
| Stormydd garw a llifogydd | 68.4 | 15.7 | 5.1 | 3.0 | 1.0 | 1.7 | 5.0 |
| Tarfu ar y cyflenwad bwyd | 32.7 | 34.0 | 14.2 | 6.5 | 3.5 | 4.1 | 4.9 |

Roedd y sgyrsiau'n amlygu themâu fel amddiffyn cartrefi rhag llifogydd, sicrhau cyflenwadau ynni a bwyd, defnyddio mannau cymunedol i gefnogi pobl yn ystod digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, adeiladu seilwaith addasu, cynllunio argyfwng, a chefnogi grwpiau agored i niwed mewn perthynas ag effeithiau newid hinsawdd. Er bod pwyslais y trefnwyr ar addasu, roedd amwysedd yn aml ymhlith y cyfranogwyr wrth wahaniaethu rhwng addasu, lliniaru, ac ymateb brys. Felly, mae'r paragraffau canlynol yn cyfeirio at gymysgedd o'r cysyniadau hyn. Roedd adroddiadau eang ar draws y gweithdai o gyfranogwyr a'u cymunedau nad oeddent yn teimlo'n barod ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yn arbennig, roedd diffyg parodrwydd mewn perthynas â llifogydd, er bod rhai cyfranogwyr yn adrodd bod eu rhanbarth wedi cael profiad helaeth o hyn. Mynegwyd barn gan lawer mai ychydig neu ddim camau maen nhw wedi'u cymryd i i baratoi ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol, gyda rhai yn dweud nad oes ganddynt "unrhyw syniad beth i'w wneud" (Ton Fawr).

> *"Er bod gwahanol safbwyntiau yn cael eu rhannu, roedd consensws cyffredinol nad oedd unigolion, aelwydydd a chymunedau mewn gwirionedd yn barod o gwbl ar gyfer canlyniadau negyddol newid yn yr hinsawdd na'n gwybod sut i gymryd camau effeithiol i amddiffyn eu hunain."*
> (Cymuned Longwood)


Roedd y cyfranogwyr yn mynegi awydd cryf am ymatebion mwy effeithiol, cynhwysol a lleol i addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd, gydag ymdeimlad cryf o angen am hunan-ddibyniaeth ymhlith rhai cyfranogwyr, a welwyd trwy gamau a gymerwyd i amddiffyn y cartref rhag llifogydd, yn ogystal â phrosiectau cynhyrchu ynni lleol a thyfu cymunedol. Er bod awgrymiadau ymarferol wedi'u gwneud ar draws meysydd, dywedwyd bod rhwystrau systemig, megis anghydraddoldeb ariannol, allgáu grwpiau ymylol, cyfyngiadau rheoleiddio, gwrthwynebiad i newid ymhlith rhai, a diffyg ymddiriedaeth mewn arweinwyr, yn cyfyngu ar weithredu.


> *"Newid ein cymdeithas i addasu i'r hyn sydd ei angen ar bobl, gwneud yn siŵr bod gan bawb fynediad cyfartal at gymorth a gwasanaethau os oes eu hangen arnynt"*
> (Omidaze Productions Ltd)

Mae'r darluniau nesaf yn darlunio'r casgliadau hyn, gan ddangos enghreifftiau posibl o strategaethau lleol ar gyfer addasu a lliniaru newid hinsawdd. Mae pob llun yn tynnu sylw at gamau gweithredu a grybwyllwyd yn yr adroddiadau megis cynhyrchu ynni adnewyddadwy, amddiffyn rhag

llifogydd, cynhyrchu bwyd cynaliadwy a seilwaith cymunedol sydd, gyda'i gilydd, yn meithrin gwydnwch hinsawdd cymunedol.

### Ffigur 6 – Gweledigaeth o gymuned sy'n wydn ac wedi addasu




Disgrifiad o Ffigur 6: Mae'r ddau ffeithlun yn darlunio gweledigaeth ar gyfer cymuned sydd wedi addasu i newid yn yr hinsawdd, o safbwynt cymuned wledig a chymuned drefol. Yn y lleoliad gwledig, mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys cynhyrchu ynni cymunedol trwy dyrbinau gwynt

a phaneli solar, plannu coed i helpu i reoli llifogydd, mesurau gwydnwch i eiddo rhag llifogydd, a menter tyfu bwyd gartref. Mae'r lleoliad trefol yn darlunio canolfan sy'n wydn i'r hinsawdd, sy'n gwasanaethu fel canolbwynt i ddod â'r gymuned at ei gilydd, paneli solar ar gyfer cynhyrchu ynni lleol, palmant lled-hydraidd a mesurau gwydnwch eraill rhag llifogydd ar gyfer adeiladau, a phrosiect tyfu cymunedol. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

**Cyfleoedd:** Er bod newid yn yr hinsawdd yn peri risgiau difrifol, anogwyd trefnwyr digwyddiadau i archwilio cyfleoedd posibl a all ddeillio o weithredu ar newid hinsawdd. Fodd bynnag, dywedodd hwyluswyr fod cyfranogwyr yn aml yn cael trafferth gyda'r syniad hwn, gan weld yr effeithiau negyddol yn llawer mwy nag unrhyw fanteision. Mynegodd rhai bryder y byddai unrhyw enillion o fudd i grwpiau cyfoethog neu bwerus yn bennaf, gydag ofnau o gamfanteisio a chostau cynyddol. Er gwaethaf hyn, tynnodd trafodaethau sylw at bethau positif posibl fel mwy o dwristiaeth, tymhorau tyfu hirach, prosiectau ynni dan arweiniad y gymuned, a chlymau lleol cryfach trwy wynebu heriau ar y cyd. Roedd y themâu hyn yn adlewyrchu optimistiaeth ofalus, wedi'i seilio ar wydnwch ac arloesedd lleol.

**Cyfathrebu, Addysg a Grymuso:** Thema amlwg yn y sgyrsiau oedd sut y gall cyfathrebu rhwng sefydliadau a chymunedau gefnogi addasu i'r hinsawdd, gyda phwyslais ar wella galluogedd a grymuso. Daeth addysg i'r amlwg fel thema allweddol, gyda galwadau cryf am ddysgu hinsawdd ar

> *"Mae ein parodrwydd ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol yn amrywio'n sylweddol rhwng unigolion, aelwydydd a chymunedau a'i gilydd. Er bod rhai wedi cymryd mesurau rhagweithiol, fel gosod amddiffynfeydd rhag llifogydd neu greu pecynnau brys a chreu storfeydd bagiau tywod, mae eraill yn dal i fod yn agored i niwed oherwydd diffyg adnoddau neu ymwybyddiaeth. Mae mentrau ledled cymunedau, fel cynlluniau ymateb i argyfwng lleol ac ymgyrchoedd addysg gyhoeddus, yn hanfodol wrth wella parodrwydd cyffredinol ar gyfer y rhai sy'n agored i niwed. Yn ogystal, mae gweithgarwch lleol a buddsoddiad mewn gwelliannau seilwaith yn hanfodol i liniaru effeithiau digwyddiadau tywydd eithafol."*
> (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

draws pob grŵp oedran a sector, gan gynnwys galwadau am rannu gwybodaeth o sgiliau ymarferol fel tyfu bwyd a pharodrwydd ar gyfer argyfwng. Pwysleisiodd cyfranogwyr hefyd yr angen am negeseuon gobeithiol, sy'n canolbwyntio ar atebion er mwyn gwrthsefyll naratifau sy'n seiliedig ar ofn. Roedd rhai grwpiau, gan gynnwys ffermwyr a lleiafrifoedd ethnig, yn teimlo eu bod yn cael eu beio'n annheg am faterion hinsawdd, gan dynnu sylw at yr angen am gyfathrebu cynhwysol. Roedd llawer yn mynegi rhwystredigaeth am deimlo'n ddiymadferth ac wedi'u heithrio rhag gwneud penderfyniadau, yn enwedig ymhlith pobl ifanc a chymunedau ymylol. Roedd awydd cryf am gyfrannu ar lawr gwlad, gweithgarwch creadigol, ac atebion dan arweiniad y gymuned, gyda chelf ac ymgyrchu yn cael eu hystyried fel arfau grymus dros newid.

**Casgliadau:** Mae'r adroddiad dadansoddi llawn yn cyflwyno darlun o agweddau cymharol gymhleth ymhlith cymunedau Cymru tuag at newid yn yr hinsawdd a'u syniadau ar gyfer ymateb iddo. Roedd trafodaethau yn canolbwyntio'n helaeth ar addasu, gyda phryderon wedi'u codi am lifogydd, stormydd a tharfu ar gyflenwad bwyd. Roedd llawer o gyfranogwyr yn teimlo'n amharod, ac yn rhwystredig gan gefnogaeth annigonol sefydliadau. Thema barhaus oedd yr angen am hunangynhaliaeth, gyda diddordeb mewn cynhyrchu bwyd ac ynni lleol, fel gerddi cymunedol a chynlluniau solar. Gwelwyd y rhain fel ffyrdd o adeiladu gwydnwch a lleihau dibyniaeth ar systemau canolog.

Fel y soniwyd gan ychydig o drefnwyr, roedd sgyrsiau addasu yn aml yn cynnwys trafodaethau am ddulliau o liniaru newid yn yr hinsawdd. Roedd y diffyg gwahaniaethu rhwng y ddau yn amlwg yn y math o weithredu a awgrymwyd, sy'n cynnwys mesurau addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd. Er bod sefydliadau yn cael eu harwain i ganolbwyntio ar addasu i'r hinsawdd, roedd cyfranogwyr yn mynegi awydd i ganfod ffyrdd o gyflawni gwydnwch hinsawdd trwy gryfhau eu gallu unigol a chymunedol i ddygymod â'r amrywiaeth o risgiau newid yn yr hinsawdd. Datgelodd y canfyddiadau hefyd fod llawer o gyfranogwyr yn cyfystyru addasu â lliniaru: mae'r cydgyfeirio hwn o bosibl yn awgrymu awydd am ddulliau cyfannol sy'n lleihau allyriadau a bregusrwydd i effeithiau hinsawdd.

Galwai cyfranogwyr hefyd am ganolfannau cymunedol i gynnig lloches a chefnogaeth yn ystod digwyddiadau eithafol gan bwysleisio pwysigrwydd rhwydweithiau cymdeithasol cryfach a chynllunio argyfwng. Roedd rhwystrau rhag gweithredu ar newid hinsawdd yn cynnwys anghydraddoldeb ariannol, diffyg cyllid llywodraeth, rheoliadau cyfyngol, diffyg ymddiriedaeth mewn polisi ac arweinwyr a diffyg gweithgarwch cynhwysol. Roedd awydd cryf am weithredu ymarferol, dan arweiniad y gymuned er gwaethaf yr heriau hyn. Er bod cyfranogwyr yn ei chael hi'n anodd i nodi cyfleoedd mewn newid yn yr hinsawdd, mae rhai enghreifftiau a grybwyllwyd yn cynnwys tymhorau tyfu hirach, mwy o dwristiaeth, arloesi a chreu swyddi trwy fentrau lleol. Y farn oedd bod addysg a grymuso yn allweddol ar gyfer adeiladu gwydnwch, gydag awydd am negeseuon gobeithiol, sy'n canolbwyntio ar atebion a mwy o alluogedd gyhoeddus wrth wneud penderfyniadau.